

VTCT Diploma NVQ mewn Therapi Harddwch Lefel 3



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn gwella eich sgiliau technegol, yn rhoi gwybodaeth fanwl i chi am feysydd arbenigol a bydd yn eich paratoi ar gyfer cyflogaeth fel therapydd harddwch cwbl gymwysedig.

Dyma'r cwrs i chi os...

...rydych wedi cymhwyso mewn Therapi Harddwch ar

...ydych chi am ddatblygu gwybodaeth arbenigol

...ydych chi'n weithgar ac yn meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn dysgu triniaethau harddwch a thechnegau datblygedig megis:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Tylino'r corff

Triniaethau arbenigol trydanol a mecanyddol ar gyfer y wyneb a'r corff

Rhoi lliw haul ffug â llaw neu â chwistrell

Strwythurau ewinedd artiffisial

Tylino pen Indiaidd

Tylino therapi cerrig

Diflewio

Gofal cleientiaid

Hyrwyddo a gwerthu

Gweithdrefnau iechyd, diogelwch a hylendid yn y salon.

Byddwch yn dysgu trwy:

Ddosbarthiadau theori

Gweithdai ymarferol

Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg yn gweithio ar gleientiaid

Sesiynau masnachol

Arddangosiadau

Gwaith grwp

Lleoliadau gwaith - naill ai bob wythnos neu mewn bloc

Byddwch hefyd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn:

Cystadlaethau mewnol yn y coleg

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a Sgiliau'r Byd

Diwrnodau sba

Arddangosiadau diwydiant ar Driniaeth Laser/IPL

Ymweliadau a theithiau i weld arbenigwyr yn y diwydiant

Rolau goruchwyllo yn yr adran a rheoli colofnau therapyddion

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phroffion aml-ddewis ar-lein sy'n cwmpasu gwybodaeth sylfaenol. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Lefel 3 Therapi Harddwch

Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#)

Sgiliau Cyfoethogol Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael mynediad at y cwrs hwn, bydd angen Diploma Lefel 2 mewn Therapi Harddwch arnoch.

Rhaid i chi fod yn hunan-ysgogol, yn weithgar ac yn meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar. Cynhelir pob dosbarth ar y campws a bydd un noson yr wythnos lle mae'n bosib y bydd gofyn i chi fynychu'r coleg tan 7.30yh.

Mae profiad sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn rhan orfodol o'r cwrs ac mae'n cynnwys lleoliadau gwaith a gweithio ar gleientiaid yng nghlinigau harddwch y campws. Presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yw un o brif ofynion y cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyrsiau therapi ategol llawn amser neu ran amser Lefel 3, cyflogaeth yn y diwydiant therapi harddwch neu gyrsiau Addysg Uwch (lefel prifysgol). Diploma Lefel 4 mewn Laser ILP.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cod gwisg:

Gwisg arbennig

Mae'n rhaid clymu'r gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb

Dim tyllau corff

Ni chaniateir gwisgo unrhyw emwaith ac eithrio modrwy briodas yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £198.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.